**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir Cyfarfod Blynyddol AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU ddydd Llun 21 MEHEFIN 2021 yn rhithiol dros Zoom. Dechreuir y cyfarfod am 9.30am.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

**AGENDA**

1 **Ymddiheuriadau**

2 **Penodi Cadeirydd 2021/22**

3 **Penodi Dirprwy Gadeirydd 2021/22**

4 **Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio 2021/22**

5 **Rhybudd o Faterion Brys**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

6 **Cofnodion o gyfarfod blynyddol yr Awdurdod 9 Tachwedd 2020**

7 **Materion yn Codi**

8 **Adolygu Cyfansoddiad yr Awdurdod Tân ac Achub**

9 **Aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub**

10 **Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol**

11 **Dyddiadau Cyfarfodydd 2021/22**

12 **Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau**

13 **Materion Brys**

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 4 uchod.

14 **<u>RHAN II</u>**

**Dim materion i'w trafod**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 9 Tachwedd 2020, drwy Zoom.

**YN BRESENNOL**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| P Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); R Fairhead a K Roberts (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris a H MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol); G Owens (Dirprwy Glerc); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| B Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 CADARNHAU DEILIAID SWYDDI ATAGC AR GYFER 2020/21

1.1 Esboniodd y Clerc fod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) 2020 yn caniatáu i ddeiliaid swyddi, megis y cadeirydd, barhau yn eu swyddi nes byddai eu holynwyr yn cael eu hethol, sy'n golygu bod modd ymestyn cyfnod arferol eu swyddi. Cyn y cyfarfod, ac oherwydd pandemig COVID-19, roedd yr Aelodau wedi cael eu holi am eu barn ynglŷn â pharhau â'r deiliaid swyddi a etholwyd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019/20.

1.2 Roedd yr Aelodau'n unfrydol o blaid i'r deiliaid swyddi barhau yn eu swyddi er mwyn cael parhad yn y trefniadau llywodraethu yn ystod y cyfnod digynsail oherwydd y pandemig.

1.3 **PENDERFYNWYD cytuno i bob deiliad swydd barhau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020/21, sef:**
**Y Cynghorydd Peter Lewis – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Dylan Rees – Dirprwy Gadeirydd**
**Y Cynghorydd Bryan Apsley – Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.**

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi cael eu cyflwyno i'r Clerc er mwyn eu hystyried.

3 COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL DIWETHAF

3.1 Cafodd cofnodion Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2019 eu cyflwyno, er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4. MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

5 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2020/21

5.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi gwybod i'r Aelodau am ddyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd yn 2020/21.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi dyddiadau'r holl gyfarfodydd**

6 MATERION BRYS

6.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

7 **<u>RHAN II</u>**

7.1 Dim eitemau i'w trafod.

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Cyfarfod Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Adolygu Cyfansoddiad yr Awdurdod Tân ac Achub** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Sefydlu gweithgor i adolygu'r Cyfansoddiad.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf"), ac o ganlyniad i newidiadau a wnaed i'r modd y mae'r Awdurdod yn gweithredu oherwydd y pandemig, mae'n briodol adolygu'r Cyfansoddiad. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rheolau ar gyfer y modd y caiff yr Awdurdod ei lywodraethu, ac mae angen newid rhai o'r rheolau hynny er mwyn adlewyrchu gofynion y Ddeddf. At hynny, mae terminoleg y ddogfen yn ymwneud â bod yn bresennol yn ffisegol yn y cyfarfodydd, ac mae angen diweddaru hynny.

3 Argymhellir gweithgor bach o 5 aelod i adolygu'r ddogfen ac i adrodd yn ôl.

**ARGYMHELLIAD**

4 Gofynnir i'r Aelodau gytuno
 (i) bod gweithgor yn cael ei sefydlu (fel y nodir isod) i adolygu'r Cyfansoddiad ac i adrodd yn ôl i'r Awdurdod gyda newidiadau arfaethedig;

 (ii) bod y gweithgor yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, ynghyd ag un aelod arall o'r Awdurdod.

**CEFNDIR**

5 Nid oes gofyn i'r Awdurdod gyhoeddi Cyfansoddiad, ond mae'n gwneud hynny er mwyn cael mwy o dryloywder ac fel mater o arfer dda. Mae'r ddogfen yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau, gweithdrefnau ar gyfer materion fel cyfarfodydd a chontractau, a gwahanol godau a phrotocolau.

## GWYBODAETH

6 Mae'r Awdurdod yn cynnal cyfarfodydd o bell ers rhai misoedd, ond mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod greu a chyhoeddi trefniadau ar gyfer sicrhau bod cyfarfodydd yn gallu cael eu cynnal drwy ddulliau sy'n galluogi pobl nad ydynt yn yr un lle i fynychu. Hynny yw, cyhoeddi trefniadau ar gyfer cyfarfodydd sy'n gyfan gwbl o bell a chyfarfodydd 'hybrid'. Mae llawer o reolau yn y Cyfansoddiad yn defnyddio terminoleg sy'n ymwneud â bod yn bresennol yn ffisegol naill ai mewn cyfarfodydd yn swyddfeydd yr Awdurdod, er enghraifft, lle mae angen ysgrifennu cynigion a'u rhoi i'r Cadeirydd, neu gofnodi datganiadau o fuddiant mewn llyfr sydd ar gael i'w archwilio. Felly, mae angen diweddaru'r iaith i adlewyrchu ffyrdd modern o weithio.

7 Gall y gweithgor edrych hefyd sut mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal o bell (neu gyda rhai aelodau'n mynychu o bell a rhai yn bersonol) fel eu bod yn hygyrch ac yn gwneud synnwyr i aelodau o'r cyhoedd. Er enghraifft, labelu'r cyfranogwyr mewn cyfarfodydd fel bod eu rôl yn glir neu wneud darpariaeth ar gyfer siarad yn gyhoeddus.

8 Dyma gynnig bod gweithgor bach yn cael ei sefydlu i gynnal adolygiad o'r ddogfen ac i adrodd yn ôl i'r Awdurdod yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn galendr hon. Dylai'r gweithgor gynnwys yr aelodau canlynol, i'w penodi yn rhinwedd eu swydd benodol o fewn yr Awdurdod. Awgrymir ychwanegu un aelod arall fel bod y gweithgor yn cynnwys odrif.

- Cadeirydd yr Awdurdod
- Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
- Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

9 Bydd y gweithgor yn cael ei gefnogi gan swyddogion, a byddai angen iddo gwrdd 2 neu 3 gwaith (am 2 awr y tro) i ganfod y newidiadau angenrheidiol, i ystyried opsiynau ac yna i baratoi'r newidiadau a argymhellir i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Moderneiddio'r Cyfansoddiad a'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gweithredu |
| Cyllideb | Dim cost ychwanegol y tu hwnt i'r gyllideb a ddyrannwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae rhai newidiadau i'r Cyfansoddiad yn ofynnol dan y Ddeddf newydd |
| Staffio | Nid ystyrir bod hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Caiff pob agwedd ei hystyried fel mater o drefn |
| Risgiau | Nid ystyrir bod hyn yn berthnasol |

*This document is available in English*

**Rhif ar yr agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru- Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 I nodi aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) hyd at 2022.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym Mai 2017, gwahoddwyd yr awdurdodau cyfansoddol i gyflwyno eu penodiadau i wasanaethu fel cynrychiolwyr ar yr Awdurdod am y cyfnod llawn o bum mlynedd tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2022.

3 Ers y cyfarfod blynyddol yn 2019, mae dau newid wedi bod i'r aelodaeth – un newid o Gyngor Gwynedd ac un newid o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

**ARGYMHELLIAD**

4 Bod yr Aelodau'n nodi aelodaeth yr Awdurdod hyd at 2022.

**CEFNDIR**

5 Sefydlwyd yr Awdurdod pan ad-drefnwyd llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru sef: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (5); Cyngor Sir Ddinbych (4); Cyngor Sir y Fflint (6); Cyngor Gwynedd (5); Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (5) a Chyngor Sir Ynys Môn (3). Ar sail maint y boblogaeth y penderfynir ar nifer cynrychiolwyr pob awdurdod cyfansoddol.

**GWYBODAETH**

6 Me aelodaeth yr Awdurdod nawr fel a ganlyn:

**Sir y Fflint** (6 aelod)
Cynghorydd Marion Bateman (Annibynnol)
Cynghorydd Ian Dunbar (Llafur)
Cynghorydd Veronica Gay (Cynghrair Annibynnol)

Cynghorydd Paul Shotton (Llafur)
Cynghorydd Owen Thomas (Ceidwadwyr)
Cynghorydd David Wisinger (Llafur)

**Gwynedd** (5 aelod)
Cynghorydd Simon Glyn (Plaid Cymru)
Cynghorydd John Brynmor Hughes (Annibynnol)
Cynghorydd Jason W Parry (Annibynnol) (ymunodd Ionawr 2021)
Cynghorydd Gareth A Roberts (Plaid Cymru)
Cynghorydd Gethin Glyn Williams (Plaid Cymru)

**Wrecsam** (5 aelod)
Cynghorydd Bryan Apsley (Llafur)
Cynghorydd Michael Dixon (Annibynnol)
Cynghorydd Geoff Lowe (Annibynnol)
Cynghorydd Beverley Parry-Jones (Ceidwadwyr) (ymunodd Rhagfyr 2019)
Cynghorydd Rondo Roberts (Annibynnol)

**Ynys Môn** (3 aelod)
Cynghorydd Richard Griffiths (Annibynnol)
Cynghorydd Eric Wyn Jones (Annibynnol)
Cynghorydd Dylan Rees (Plaid Cymru)

**Sir Ddinbych** (4 aelod)
Cynghorydd Brian Blakeley (Llafur)
Cynghorydd Ann Davies (Ceidwadwyr)
Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Plaid Cymru)
Cynghorydd Peter Evans (Annibynnol)

**Conwy** (5 aelod)
Cynghorydd Peter Lewis (Grwp Annibynnol Cyntaf Conwy)
Cynghorydd Susan Louise Lloyd-Williams (Plaid Cymru)
Cynghorydd Roger Parry (Ceidwadwyr)
Cynghorydd Nigel Smith (Annibynnol)
Cynghorydd Adrian Tansley (Llafur)

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyrannwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae disgwyl i aelodau ddilyn eu cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir pob agwedd fel mater o drefn |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*This document is available in English* **Rhif ar yr agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Diben yr adroddiad yw cynnig bod yr Awdurdod yn penodi aelodau i bwyllgorau mewnol a rhai amrywiol allanol, gan gynnwys cynrychiolydd i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ac i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Bob blwyddyn, yn ei gyfarfod blynyddol, mae'r Awdurdod yn cadarnhau'r aelodau a benodir i'r Panel Gweithredol fel y penderfynwyd gan yr awdurdodau cyfansoddol. Mae'r Panel Gweithredol yn cynnwys dau aelod o bob awdurdod cyfansoddol, ynghyd â'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd. Mae gweddill yr aelodau'n cael eu penodi i'r Pwyllgor Archwilio. Gallai'r Awdurdod benderfynu defnyddio cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y pwyllgorau hyn, ond yn gorffennol mae wedi penderfynu peidio â gwneud hynny.

3 Rhaid i'r Awdurdod sefydlu Pwyllgor Safonau. Mae aelodaeth y pwyllgor hwn yn cynnwys dau Aelod o'r Awdurdod na allant fod yn dal swydd ar yr Awdurdod. Nid oes raid i'r pwyllgor gael cydbwysedd gwleidyddol.

4 Rhaid i'r Awdurdod sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys tri Aelod o'r Awdurdod i gynrychioli'r cyflogwr. Cafodd cyfnod aelodaeth o'r bwrdd ei newid ym mis Medi 2018 er mwyn cyd-fynd â'r etholiadau llywodraeth leol.

5 Mae Aelodau'n cael eu penodi hefyd i gynrycholi'r Awdurdod ar bwyllgorau allanol.

**ARGYMHELLION**

6 Argymhellir bod yr Awdurdod yn:
(i) ystyried a yw am ddilyn egwyddor cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer aelodaeth o'r Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio;

(ii) cadarnhau penodiadau i'r Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Safonau a'r Bwrdd Pensiwn Lleol, fel y nodir yn yr adroddiad; a

(iii) penodi/cadarnhau cynrychiolwyr i gyrff allanol sydd yn y rhestr ym mharagraff 11.

**CEFNDIR**

7 Mae gan yr Awdurdod gyfres o bwyllgorau y gwneir penodiadau iddynt yn ei gyfarfod cyntaf neu ei gyfarfod blynyddol. Mae'r rhain wedi eu nodi isod.

8 Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chymhwyso cydbwysedd gwleidyddol i aelodaeth ei Bwyllgorau o dan Reol 20 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990. Edrychwyd ar y mater hwn eto yn ystod adolygiad cyfansoddol yng nghanol 2008-09. Y consensws cyffredinol oedd na fyddai cydbwysedd gwleidyddol yn fuddiol gan fod y trefniadau presennol yn gynhwysol ac yn osgoi creu 'rhaniad gwleidyddol' yn llywodraethiad yr Awdurdod.

9 Cafodd Pwyllgor Safonau'r Awdurdod ei sefydlu yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys ystyried cwynion yn erbyn aelodau'r Awdurdod, a chynghori'r Awdurdod ar faterion yn ymwneud â safonau.

10 Cafodd Bwrdd Pensiwn Lleol yr Awdurdod ei sefydlu yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'r bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod safonau da o lywodraethu yn cael eu cyrraedd a'u cynnal wrth weithredu a chymhwyso Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

11 Cynrychiolir yr Awdurdod hefyd ar y cyrff canlynol:

| | |
|---|---|
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân Gweinidogol Tân ac Achub | Y Cadeirydd fel arfer |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) | Y Cadeirydd fel arfer |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | Un cynrychiolydd ar ran y tri Awdurdod Tân ac Achub |
| Panel Gwasanaethau Tân WLGA | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | Y Cadeirydd fel arfer |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Un cynrychiolydd ar ran y tri Awdurdod Tân ac Achub |
| Pwyllgor Materion Cenedlaethol | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |

**GWYBODAETH**

12 Gwneir penodiadau i'r pwyllgorau canlynol:-

- Panel Gweithredol
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Safonau (2 aelod) (dim angen cydbwysedd gwleidyddol o dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001)
- Bwrdd Pensiwn Lleol (3 aelod).

13 Mae cylchoedd gorchwyl pwyllgorau'r Awdurdod wedi eu cynnwys yn ei Gyfansoddiad.

14 O ystyried bod rhaid i'r awdurdodau cyfansoddol gymhwyso'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol ar eu pwyllgorau nhw (heblaw yn achos cabinetau), anogir awdurdodau i enwebu aelodau i'r Awdurdod hwn ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Dylai'r Awdurdod ei hun ystyried yn flynyddol a yw'n dymuno cymhwyso cydbwysedd gwleidyddol, gan nodi'r sylwadau sydd ym mharagraff 8 uchod. Petai'r Awdurdod yn cymhwyso'r egwyddor hon, dylid gwneud penodiadau i bwyllgorau sy'n sicrhau bod gan yr holl awdurdodau cyfansoddol gynrychiolaeth ddigonol.

15 Mae aelodaeth Panel Gweithredol yn cynnwys dau aelod o bob awdurdod cyfansoddol ynghyd â Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod.

16 Mae'r aelodau hynny sydd heb eu penodi i'r Panel Gweithredol yn dod yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyranwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

| AELOD | AWDURDOD CYFANSODDOL |
|---|---|
| **PANEL GWEITHREDOL – hyd at 21 Mehefin 2021** | |
| Peter Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dylan Rees (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Richard Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Meirick Lloyd Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Michael Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Veronica Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| Roger Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Adrian Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| **PWYLLGOR ARCHWILIO – hyd at 21 Mehefin 2021** | |
| Bryan Apsley (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Owen Thomas (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Eric Wyn Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Peter Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Geoff Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| David Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| Sue Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Nigel Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jason W Parry | Cyngor Gwynedd |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Simon Glyn | Cyngor Gwynedd |
| **PWYLLGOR SAFONAU – hyd at yr etholiadau nesaf yn 2022** | |
| Michael Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Owen Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| **BWRDD PENSIWN LLEOL – hyd at yr etholiadau nesaf yn 2022** | |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Simon Glyn | Cyngor Gwynedd |

Mae aelodaeth y Gweithgor Cynllun Gwella yr un fath ag aelodaeth y Panel Gweithredol, yn ogystal â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, fel y cytunwyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr, 2018.

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Dyddiadau Cyfarfodydd 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1** Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2021/22.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2021/22 fel a ddangosir ym mharagraffau 7-11 o'r adroddiad hwn.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod aelodau'n nodi dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**CEFNDIR**

4 Cytunwyd ar ddyddiadau ar gyfer yr holl gyfarfodydd hyd Mawrth 2022 ym mis Tachwedd 2020. Bydd y nodyn atgoffa hwn o gymorth i aelodau a swyddogion gyda'u hamserlenni.

**GWYBODAETH**

5 Oherwydd pandemig Covid, gofynnir i Aelodau nodi y cynhelir cyfarfodydd dros Zoom hyd at yr Hydref o leiaf.

6 Mae swyddogion yn trafod hefo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynglŷn â chyfarfodydd ar ffurf hybrid, ble mae rhai aelodau'n bresennol ac eraill yn mynychu yn rhithiol. Ar hyn o bryd does dim offer priodol yn siambr y cyngor i alluogi hyn i ddigwydd.

**Yr Awdurdod Tân ac Achub**

7 Mae Rheol Sefydlog 4(2) o Reolau Sefydlog yr Awdurdod yn nodi y dylid cynnal cyfarfodydd o'r Awdurdod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gyda'r cyfarfod blynyddol i'w gynnal cyn ddiwedd Mehefin fan bellaf. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar y trydydd dydd Llun yn y mis oni bai fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân, yn pennu'n wahanol.

8 Tra bo'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol, byddant yn dechrau am 9.30 y bore os nad nodir yn wahanol isod.

9 Dyma'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod:

Dydd Llun 20 Medi 2021
Dydd Llun 20 Rhagfyr 2021
Dydd Llun 14 Mawrth 2022

**Y Panel Gweithredol**

10 Dyma ddyddiadau cyfarfodydd y Panel Gweithredol:

Dydd Llun 26 Gorffennaf 2021, **2 o'r gloch y pnawn**
Dydd Llun 18 Hydref 2021
Dydd Llun 14 Chwefror 2022

**Pwyllgor Archwilio**

11 Dyma ddyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio:

Dydd Llun 26 Gorffennaf 2021
Dydd Llun 20 Medi 2021, **9.00 y bore**
Dydd Llun 24 Ionawr 2022

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ddim yn berthnasol |
| Cyllideb | Ddim yn berthnasol |
| Cyfreithiol | Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Sefydlog ATAGC a'r cylch gorchwyl perthnasol.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staffio | Ddim yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg/ | Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod Tân yn cydymffurfio â chydraddoldeb |
| Risgiau | Ddim yn berthnasol |

*This document is available in English* **Rhif ar yr Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **21 Mehefin 2021** |
| Swyddog Arweiniol | **Colin Everett, Clerc a Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Alwen Davies (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i Aelodau am Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/22, sy'n nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth i'r Aelodau ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae adroddiad blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth i'r aelodau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau hynny sy'n effeithio aelodau'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lwfansau aelodau a chydnabyddiaeth ariannol o 1 Ebrill 2021;

(ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i ddiweddaru'r rhestr o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau o fewn cyfansoddiad yr Awdurdod, ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2021/22 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cyngor, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## CEFNDIR

5 Ymestynnwyd cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol trwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. O dan y pwerau a ddarperir gan y Mesur bu i'r Panel lunio cyfres newydd o Reoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2012. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

## GWYBODAETH

6 Ar gyfer 2021/22 mae'r Panel wedi penderfynu gwneud cynnydd bach yn y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau, felly bydd cynnydd i aelodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

7 Ar gyfer awdurdodau tân ac achub mae'r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

| | **Cyflog 2021/22 i ddechrau o 1 Ebrill 2021** | Cyflog 2020/21 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau cyffredin o ATA | **£2,026** | £2,005 |
| Uwch gyflog ar gyfer Cadeirydd ATA | **£10,818** | £10,705 |
| Uwch gyflog ar gyfer Dirprwy Gadeirydd yr ATA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio* | **£5,765** | £5,705 |

* gellir talu uwch gyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor ATA lle ceir cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus.

8 Yn ychwanegol at yr uchod:
- mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer ATAau i wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol
- ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog gan ATA
- telir uwch gyflog ATA gan gynnwys cyflog sylfaenol yr ATA ac mae'n rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus
- ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA arall y maent wedi'u henwebu iddo.

9 Mae Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Gadeirydd y Panel Gweithredol hefyd, a gall hawlio un cyflog yn unig. Er mwyn gwahaniaethu rhwng ‘prif bwyllgor’ a ‘phwyllgor arall’, argymhellir ei seilio ar nifer y cyfarfodydd a gynhelir bob blwyddyn. Mae’r Panel Gweithredol yn cwrdd bum gwaith y flwyddyn, ac mae’r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Felly, argymhellir bod yr Awdurdod yn parhau â’i benderfyniad blaenorol, sef bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei dalu dan y categori “cadeirydd pwyllgor arall”.

**Aelodau Annibynnol**

10 Mae’r ffi sy’n cael ei thalu i aelodau’r Pwyllgor Safonau wedi cynyddu ar gyfer 2021/22. Mae’r ffi ddyddiol wedi’i chapio ar uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar y gyfradd ganlynol:

| | **Cyflog 2021/22 i ddechrau o 1 Ebrill 2021** | Cyflog 2020/21 |
|---|---|---|
| Cadeirydd Pwyllgor Safonau | **£268 ffi dyddiol (£134 hanner diwrnod)** | £256 ffi dyddiol (£128 hanner diwrnod) |
| Aelod Annibynnol | **£210 ffi dyddiol (£105 hanner diwrnod)** | £198 ffi dyddiol (£99 hanner diwrnod) |

**Lwfans Teithio, Cynhaliaeth a Gofal**

11 Ni chafwyd unrhyw newidiadau i lwfansau teithio, cynhaliaeth a gofal, sy’n unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Atgoffir Aelodau bod penderfyniad wedi ei wneud yng nghyfarfod yr ATA ym Mehefin 2018 yn datgan bod modd hawlio cynhaliaeth os yw’r aelodau oddi ffwrdd o gartref am bum awr neu fwy, a hynny yn unol â rheoli Cyllid a Thollau EM.

- **Cynhaliaeth**

| | |
|---|---|
| £28 y dydd | Lwfans dydd ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast, lle nad yw’n cael ei ddarparu yn y tâl am aros dros nos. Rhaid bod i ffwrdd am bum awr neu hwy er mwyn hawlio cynhaliaeth. |

- **Llety**

| | |
|---|---|
| £200 y noson | Llundain |
| £95 y noson | Ardaloedd eraill |
| £30 y noson | Aros gyda ffrindiau a/neu deulu |

- Mae’r gyfradd **Milltiroedd** yn aros ar 45c y filltir.

12 Atgoffir yr Aelodau hefyd bod y Panel, er mwyn cefnogi aelodau presennol ac i roi anogaeth ar gyfer amrywiaeth mae'r Panel yn erfyn ar awdurdodau i hybu ac annog mwy o aelodau i hawlio'r ad-daliad o gostau gofal. Rhaid i'r holl awdurdodau ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.

13 Mae penderfyniad y panel ynglŷn â gofal a chymorth personol fel a ganlyn:

"Rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn:

- Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu yn unol â thystiolaeth.
- Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.

Rhaid i hyn fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy. Rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir yn gysylltiedig â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy, fel sy'n briodol. Ni ddylid gwneud taliadau nes bydd derbynebau gan y darparwr gofal wedi'u darparu."

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Mae'r codiadau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2021/22. |
| Cyfreithiol | Mae Rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi'r trefniadau ar gyfer talu Aelodau awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn unol â Rheoliadau'r Panel a'r canllawiau sydd yn Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2017/18, rhaid i'r Awdurdod lunio a chynnal Rhestr o Gydnabyddiaethau Aelodau, sy'n rhoi manylion y taliadau penodol y mae'n bwriadu eu gwneud i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn |

| | |
|---|---|
| | unol â'r lefelau cydnabyddiaeth a lwfansau a benderfynir gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol terfynol neu Adroddiadau Atodol. Rhaid i unrhyw newidiadau i'r Rhestr a wneir yn ystod blwyddyn y cyngor gael eu cyfleu i'r Panel cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud. |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Nid ystyrir bod angen ymdrin ag unrhyw faterion, oherwydd mae'r argymhellion yr un mor gymwys i'r holl Aelodau ni waeth am y nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |